# Asesiad Strwythuredig 2023 – Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3991A2024

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 7

Adroddiad manwl

Tryloywder, effeithiolrwydd, a chydlyniant y Bwrdd 10

Systemau sicrwydd corfforaethol 15

Dull corfforaethol o gynllunio 19

Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol 23

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 27

Atodiad 2 – Cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn gynt 29

Atodiad 3 – Ymateb sefydliadol i'r argymhellion archwilio 32

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â’r adroddiad hwn

1 Mae’r adroddiad hwn yn nodi’r canfyddiadau o waith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2023 yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Bwriedir i’n gwaith asesu strwythuredig helpu i fodloni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod cyrff GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau.

2 Gwnaed ein gwaith Asesu Strwythuredig yn 2023 ar adeg pan roedd cyrff GIG yn dal i ymateb i etifeddiaeth pandemig COVID-19 wrth iddynt geisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau ac ymateb i’r galw ychwanegol yn y system sydd wedi datblygu yn ystod y pandemig. Yn ogystal, mae cyrff iechyd hefyd yn ymdrin â chyfres ehangach o heriau gyda’r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinderau mewn gweithluoedd, ac ystâd sy’n heneiddio. Yn fwy nag erioed, felly, mae angen i gyrff GIG a’u Byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a all roi sicrwydd i’w hunain, y cyhoedd, a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, diogel, ac ymatebol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario’n ddoeth.

3 Mae pwyslais allweddol y gwaith wedi bod ar drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio’n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus, â phwyslais penodol ar dryloywder, cydlyniant, ac effeithiolrwydd; systemau sicrwydd corfforaethol, dull cynllunio corfforaethol, a dull rheoli ariannol corfforaethol. Nid ydym wedi adolygu trefniadau gweithredu’r Ymddiriedolaeth yn rhan o’r gwaith hwn.

4 Hysbyswyd ein gwaith gan ein gwaith asesu strwythuredig blaenorol, a ddatblygwyd ac a fireiniwyd dros nifer o flynyddoedd. Fe’i hysbyswyd hefyd gan:

- Rheolau Sefydlog Model, Cadw a Dirprwyo Pwerau
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Model
- Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru
- Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau’r GIG yng Nghymru (Ail Argraffiad)
- Canllawiau arferion da perthnasol eraill

Cyflawnwyd ein gwaith rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Hydref 2023. Caiff y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith eu crynhoi yn **Atodiad 1**.

5 Rydym hefyd yn darparu diweddariad yn yr adroddiad hwn ar gynnydd yr Ymddiriedlaeth o ran mynd i’r afael ag argymhellion na aethpwyd i’r afael â nhw a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol yn **Atodiad 2**.

# Canfyddiadau allweddol

6 Ar y cyfan, canfuwyd gennym fod **yr Ymddiriedolaeth yn dangos pwyslais ar wella ei threfniadau ar gyfer llywodraethu, cynllunio a chyllid. Fodd bynnag, mae pwysau gweithredu sylweddol, aneffeithlonrwydd wedi'i achosi gan oedi cyn trosglwyddo, dibyniaeth ar arbedion nad ydynt yn gylchol a diffyg cyllid sydd ar gael yn cyfyngu ei gallu i drawsnewid gwasanaethau**.

## Tryloywder, effeithiolrwydd, a chydlyniant y Bwrdd

7 **Canfuwyd gennym fod trefniadau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn effeithiol, ond mae gan yr Ymddiriedolaeth ôl-groniad sylweddol o bolisïau sy'n disgwyl adolygiad, a cheir lle i wneud rhai gwelliannau i feysydd eraill o lywodraethu gweinyddol.**

8 Mae'r Bwrdd yn dal i fod wedi ymrwymo i dryloywder cyhoeddus. Mae cyfarfodydd yn cael eu ffrydio'n fyw, ceir cyfleoedd i'r cyhoedd ofyn cwestiynau cyn cyfarfodydd a hysbysir am gamau gweithredu cyfarfodydd preifat/caeedig mewn papurau Bwrdd cyhoeddus. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi'r rhan fwyaf o bapurau cyfarfod cyn cyfarfodydd. Fodd bynnag, i gynyddu tryloywder busnes y Bwrdd ymhellach, dylai'r Ymddiriedolaeth gyhoeddi cofnodion Bwrdd a phwyllgorau heb eu cadarnhau yn fwy buan, a dylid darparu fersiwn ysgrifenedig o Adroddiad y Cadeirydd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth ôl-groniad sylweddol o bolisïau sy'n hwyr yn cael eu hadolygu. Fodd bynnag, mae wedi datblygu cynllun realistig ac wedi'i flaenoriaethu i adolygu polisïau allweddol a gwella ei broses ar gyfer cynnal dogfennau rheolaeth ysgrifenedig.

9 Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn gweithredu'n dda, wedi'u cefnogi gan gylchoedd gorchwyl a chylchoedd busnes cyfredol. Mae cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda, ac mae'r aelodau yn gwneud cyfraniad ystyrlon i gefnogi, craffu, a cheisio sicrwydd ar feysydd o berfformiad. Mae papurau o safon dda yn gyffredinol a cheir gwaith parhaus i annog cyflwyniadau mwy cryno o risgiau a materion allweddol. Mae straeon cleifion a staff yn nodweddion allweddol o agendâu'r bwrdd a'r pwyllgorau sy'n ffurfiau o wybodaeth a werthfawrogir yn fawr i osod naws cyfarfodydd. Mae gwaith yn parhau i alluogi ac annog aelodau i wneud mwy o ddefnydd o ymweliadau aelodau'r bwrdd i alluogi aelodau i driongli gwybodaeth o gyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau gyda'u harsylwadau. Bydd rhai newidiadau i aelodaeth y Bwrdd dros y misoedd nesaf oherwydd trosiant Cyfarwyddwyr Anweithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau rhesymol a ystyriwyd yn dda i reoli'r newidiadau hyn.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

10 **Canfuwyd gennym fod yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei systemau sicrwydd corfforaethol, ond mae mwy i'r wneud mewn meysydd allweddol gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac ymdrin â phryderon a**

**digwyddiadau. Mae perfformiad gweithredu yn dal i fod yn eithriadol o anodd oherwydd galw cynyddol a phwysau ehangach ar y system**.

11 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal trefniadau rhesymol ar gyfer rheoli a goruchwylio risgiau corfforaethol. Mae'n parhau i fwrw ymlaen â'i rhaglen trawsnewid risg a disgwylir i sawl cam gael eu cyflawni erbyn mis Ebrill 2024. Ceir ffactorau y tu hwnt i reolaeth yr Ymddiriedolaeth sy'n cyfrannu'n sylweddol at ei risgiau mwyaf ac mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad i gydweithredu â phartneriaid i sefydlu cyd-ddealltwriaeth ac ymateb i'r risgiau hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn datblygu ei Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ers 2022. Fodd bynnag, mae angen mwy o bwyslais gan y Bwrdd a'r pwyllgorau ar y risgiau i gyflawni amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth.

12 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal trefniadau rheoli perfformiad rhesymol, ond mae perfformiad gweithredu yn dal i fod yn eithriadol o anodd oherwydd galw cynyddol, pwysau ehangach ar y system a'r aneffeithlonrwydd canlyniadol a grewyd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau cadarnhaol i wella ei threfniadau llywodraethu ansawdd, gan gynnwys gwaith i baratoi ar gyfer y gofynion o dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (2020). Fodd bynnag, mae prydlondeb ymateb i bryderon wedi gwaethygu oherwydd galw cynyddol a phroblemau capasiti. Mae trefniadau ar gyfer olrhain argymhellion archwilio yn cryfhau, â mwy o eglurder ynghylch cyflawni camau gweithredu a'r effaith a sicrhawyd.

## Dull corfforaethol o gynllunio

13 **Canfuwyd gennym fod gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol da o ddatblygu strategaethau a chynlluniau, ond nid yw cynlluniau yn cynnwys cerrig milltir CAMPUS ac nid yw adroddiadau darparu yn cynnig digon o eglurder ar ba un a yw canlyniadau a fwriedir yn cael eu cyflawni.**

14 Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer llunio a goruchwylio datblygiad strategaethau a chynlluniau yn gymharol gadarn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i lunio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig fel cyfrwng ar gyfer cyflawni ei huchelgais strategol hirdymor. Derbyniodd y Cynllun Tymor Canolig Integredig gymeradwyaeth eto gan Lywodraeth Cymru ac fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth gryfhau ei hymgysylltiad o staff wrth ddatblygu ei chynllun 2023-2026. Fodd bynnag, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod yr holl gamau a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn CAMPUS â chanlyniadau mesuradwy a cherrig milltir darparu eglur. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth gryfhau adrodd ar ddarpariaeth y Cynllun Tymor Canolig Integredig trwy gynyddu'r pwyslais ar ganlyniadau ac effaith a sicrhawyd, yn hytrach na chanolbwyntio ar weithgarwch yn unig.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

15 **Canfuwyd gennym fod yr Ymddiriedolaeth yn dangos perfformiad ariannol cryf, dull cynllunio ariannol da a throsolwg priodol gan y Bwrdd a'r**

**pwyllgorau. Fodd bynnag, gallai'r ddibyniaeth ar gynlluniau arbedion nad ydynt yn gylchol, aneffeithlonrwydd gweithredu wedi'i achosi tan oedi cyn trosglwyddo a diffyg cyllid ychwanegol sydd ar gael gyfyngu gallu'r Ymddiriedolaeth i gefnogi ei chynlluniau moderneiddio gwasanaethau**.

16 Parhaodd yr Ymddiriedolaeth ei hanes ariannol da o gyflawni ei hamcanion a'i dyletswyddau ariannol ar gyfer 2022-23 a'r cyfnod tair blynedd treigl o 2020-21 i 2022-23. O fis saith (Hydref) 2023-24, mae'r Ymddiriedolaeth ar y trywydd iawn eto i gyflawni ei dyletswyddau ariannol, sy'n arwyddocoal o gofio'r heriau ariannol eithriadol o heriol presennol sy'n wynebu GIG Cymru.

17 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn ar gyfer cynllunio ariannol, sy'n nodi risgiau a materion allweddol yn eglur. Mae'r risgiau yn cynnwys diffyg eglurder ynghylch y cyllid cylchol sydd ar gael i staff ambiwlans a recriwtiwyd yn wreiddiol i fynd i'r afael â phwysau ar y gwasanaeth yn ystod y gaeaf yn 2022 gan ddefnyddio cyllid byrdymor.

18 Roedd gan yr Ymddiriedolaeth fwlch arbedion ar adeg cymeradyo ei chynllun ariannol ond roedd yn gallu nodi'r arbedion angenrheidiol i lenwi'r bwlch hwn erbyn mis pedwar. Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynghylch lefel yr arbedion nad ydynt yn gylchol yng nghynllun yr Ymddiriedolaeth a sut y gallai hyn effeithio ar yr Ymddiriedolaeth yn y blynyddoedd i ddod.

19 Mae aneffeithlonrwydd fel oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys ac anawsterau yn cael gafael ar gyllid ychwanegol yn cyfyngu gallu'r Ymddiriedolaeth i fynd ar drywydd newid trawsnewidiol a moderneiddio gwasanaethau. Y llynedd, amlygwyd gennym mai £50 miliwn oedd cost dybiannol oedi cyn trosglwyddo, ac mae'r achosion hynny o oedi yn dal i fod yn uchel. Mae'r aneffeithlonrwydd hwn yn amharu ar allu'r Ymddiriedolaeth i adleoli ei hadnoddau i gefnogi triniaeth ataliol yn y gymuned lleihau cludiant ambiwlansys i'r ysbyty. Byddwn hefyd yn ystyried trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd ariannol yn rhan o'n rhaglen archwilio ddechrau 2024.

## Argymhellion

20 Mae **Arddangosyn 1** yn rhoi manylion yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys amserlenni a'n hasesiad o flaenoriaeth. Caiff ymateb yr Ymddiriedolaeth i'n harhymhellion ei grynhoi yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 1: argymhellion 2023**

**Argymhellion**

**Tryloywder busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau**

A1 Mae cyfleoedd yn bodoli i wella tryloywder busnes y Bwrdd a'r Pwyllgorau ymhellach. Dylai'r Ymddiriedolaeth:

a) ddarparu Adroddiad Cadeirydd ysgrifenedig i bob cyfarfod Bwrdd. (**Blaenoriaeth Ganolig**); ac
b) adolygu a chyhoeddi cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod. (**Blaenoriaeth Ganolig**).

**Mynediad y cyhoedd at strategaethau a chynlluniau allweddol**

A2 Dylai'r Ymddiriedolaeth gyhoeddi cynlluniau allweddol ar wefan yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig diweddaraf a'r Cynllun Pobl a Diwylliant. (**Blaenoriaeth Uchel**)

**Eglurder amcanion/camau gweithredu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig**

A3 Canfuwyd gennym nad yw Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys camau CAMPUS, nid yw llawer yn cynnwys canlyniad mesuradwy penodol, ac mae hefyd yn aneglur yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ym mha flwyddyn y disgwylir i bob cam gael ei gyflawni. Fodd bynnag, mae cerrig milltir cyflawni wedi'u cyflwyno mewn mannau eraill. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod yr holl gamau a gyflwynir mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol yn CAMPUS trwy nodi canlyniadau mesuradwy a cherrig milltir cyflawni. (**Blaenoriaeth Uchel**)

**Trosolwg o ddarpariaeth y Cynllun Tymor Canolig Integredig**

A4 Er y bu gwelliannau diweddar i adrodd ar gynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig i'r Pwyllgorau a'r Bwrdd, ceir lle i ddarparu mwy o eglurder ar ba un a yw'r camau a gyflawnwyd wedi sicrhau'r effaith a fwriadwyd. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod pob adroddiad ar gynnydd cyflawni cynlluniau yn cynnwys gwybodaeth am yr effaith a sicrhawyd. (**Blaenoriaeth Uchel**)

**Argymhellion**

**Trosolwg o gynlluniau arbedion**

A5 Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn nodi'n eglur yn ei chynlluniau a'i hadroddiadau cyllid a yw cynlluniau arbedion yn gylchol neu ddim yn gylchol. I gryfhau trosolwg ar arbedion, mae angen i'r Ymddiriedolaeth nodi a yw cynlluniau yn gylchol neu ddim yn gylchol yn ei chynlluniau a'i hadroddiadau ariannol. (**Blaenoriaeth Uchel**)

# Adroddiad manwl

## Tryloywder, effeithiolrwydd, a chydlyniant y Bwrdd

21 Ystyriwyd gennym a yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei fusnes yn briodol, yn effeithiol, ac yn dryloyw.

22 Canfuwyd gennym fod **trefniadau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn effeithiol, ond mae gan yr Ymddiriedolaeth ôl-groniad sylweddol i bolisïau y disgwylir iddynt gael eu hadolygu, a cheir lle i wneud rhai gwelliannau i feysydd llywodraethu gweinyddol eraill**.

### Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

23 Ystyriwyd gennym a yw'r Bwrdd yn hyrwyddo ac yn dangos ymrwymiad i dryloywder cyhoeddus busnes y bwrdd a'r pwyllgorau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:

- gyfarfodydd bwrdd a phwyllgor sy'n hygyrch i'r cyhoedd;
- papurau bwrdd a phwyllgor sydd ar gael i'r cyhoedd cyn cyfarfodydd;
- bod busnes a phrosesau gwneud penderfyniadau y bwrdd a'r pwyllgorau yn cael eu cyflawni'n dryloyw; a
- bod cofnodion cyfarfodydd bwrdd a phwyllgor ar gael i'r cyhoedd yn brydlon.

24 Canfuwyd gennym fod **yr Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i weithredu'n dryloyw ond bod cyfleoedd i gynyddu mynediad y cyhoedd at fusnes y Bwrdd**.

25 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal cyfarfodydd y Bwrdd yn bersonol ac yn darlledu'n fyw ar-lein drwy Facebook. Mae cyfarfodydd a recordiwyd ar gael ar YouTube yn fuan ar ôl cyfarfodydd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu cyfeiriadau a chanllawiau priodol i alluogi aelodau'r cyhoedd i gael mynediad at gyfarfodydd a chyflwyno cwestiynau i'r Bwrdd. O gofio y gall aelodau'r cyhoedd arsylwi cyfarfodydd ar sail rithwir o unrhyw leoliad, mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn cynnal pob un o'i gyfarfodydd Bwrdd yng Nghaerdydd yn hytrach na chylchdroi cyfarfodydd o gwmpas Cymru. Mae hyn yn lleihau amser gwaith a gollir i deithio ar gyfer y mwyafrif o aelodau'r Bwrdd. Mae cyfarfodydd pwyllgor yn rhithwir yn hytrach na phersonol. Er nad ydynt yn cael eu darlledu'n fyw, gall aelodau'r cyhoedd wneud cais i wylio cyfarfodydd pwyllgor ar sail rithwir.

26 Diwygiodd yr Ymddiriedolaeth ei Rheolau Sefydlog ym mis Mai a mis Medi 2023, gan gynnwys diwygio'r gofyniad i gyhoeddi papurau ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau o ddeg diwrnod ymlaen llaw i saith diwrnod ymlaen llaw. Mae Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd wedi cyhoeddi canllawiau a chymorth i bob cyfarwyddiaeth ar y broses a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno papurau ar gyfer cyfarfodydd bwrdd a phwyllgor. Mae'r newidiadau hyn, ynghyd â sefydlu cylchoedd eglur eraill o fusnes a chyfarfodydd gosod agenda prydlon, yn gwella cydymffurfiad cyhoeddi papurau

Bwrdd a phwyllgor erbyn y terfyn amser a gytunwyd (gweler **Atodiad 2**, **Argymhelliad 1a 2022**). Mae eithriadau rhesymol yn cynnwys adroddiadau cyllid i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, nad ydynt yn cael eu lanlwytho ymlaen llaw oherwydd yr angen i gyflwyno'r sefyllfa fwyaf cyfredol.

27 Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio cyfarfodydd preifat (caeedig) cyn lleied â phosibl, gan gadw'r rhain ar gyfer materion cyfrinachol a sensitif yn unig. Pan fydd y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau yn breifat, mae'n adrodd y rheini yn y sesiwn gyhoeddus ddilynol ochr yn ochr ag unrhyw Gamau'r Cadeirydd a gymerwyd ers y cyfarfod blaenorol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn lleihau'r defnydd o Gamau'r Cadeirydd, a phan fyddant yn digwydd mae adrodd cyhoeddus o'r rheini yn ddigon manwl (gweler **Atodiad 2**, **Argymhelliad 1b 2022**).

28 Rydym hefyd wedi nodi gostyngiad cyffredinol i nifer y cyflwyniadau llafar heb bapurau ategol. Mae hyn yn cefnogi llywodraethu da gan ei fod yn galluogi aelodau'r Bwrdd i ddarllen papurau ymlaen llaw. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod Adroddiad y Cadeirydd a ddarperir ym mhob cyfarfod Bwrdd yn ddiweddariad llafar. Dylai'r Ymddiriedolaeth geisio darparu Adroddiad y Cadeirydd mewn fformat ysgrifenedig yn ogystal â chyflwyniad llafar (**Argymhelliad 1a**). Mae hyn yn bwysig o gofio nad yw'r Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd pwyllgor a bwrdd tan iddynt gael eu cadarnhau yn y cyfarfod canlynol. I gynyddu tryloywder busnes y Bwrdd, ac i alluogi mynediad prydlon i'r cyhoedd, dylai'r Ymddiriedolaeth gyhoeddi cofnodion heb eu cadarnhau o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod, ar ôl iddynt gael eu hadolygu gan gadeirydd y pwyllgor a'r swyddog gweithredol arweiniol (**Argymhelliad 1b**).

## Trefniadau i gefnogi cyflawniad busnes y Bwrdd

29 Ystyriwyd gennym a oes trefniadau priodol a thryloyw ar waith o gefnogi cyflawniad effeithiol busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:

- Gadw a Dirprwyo Pwerau a Chynllun Dirprwyo ffurfiol, cyfredol, ac ar gael i'r cyhoedd ar waith, sy'n nodi atebolrwyddau yn eglur;
- Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ffurfiol, cyfredol, ac ar gael i'r cyhoedd ar waith, ynghyd â thystiolaeth o gydymffurfiad; a
- polisïau a gweithdrefnau ffurfiol, cyfredol, ac ar gael i'r cyhoedd ar waith i hybu s sicrhau uniondeb a phriodoldeb.

30 Canfuwyd gennym **er bod trefniadau priodol a thryloyw i gefnogi cyflawniad effeithiol busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau fod gan yr Ymddiriedolaeth ôl-groniad sylweddol o bolisïau sy'n hwyr yn cael eu hadolygu**.

31 Mae'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd yn adolygu Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth yn flynyddol, gan gynnwys y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Cynllun Cadw a Dirprwyo. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn aros yn gyfredol ac yn cyd-fynd â'r strwythur sefydliadol. Mae'r Cynllun Cadw a Dirprwyo yn nodi atebolrwyddau o fewn yr Ymddiriedolaeth yn eglur. Mae diwygiadau a wnaed i

Reolau Sefydlog yn 2023 yn sicrhau eu bod bellach yn adlewyrchu gofynion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Esboniodd swyddogion yn eglur y newidiadau a wnaed i Reolau Sefydlog yn y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd ym mis Mai a mis Medi 2023 gan sicrhau bod y fersiwn ddiweddaraf a gymeradwywyd ar gael i'r cyhoedd.

32 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei ddull ar gyfer cofrestru datganiadau o fuddiant a chofnodi rhoddion a lletygarwch. Mae ei bolisi Safonau Cyflawni Busnes newydd, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023, yn nodi disgwyliadau eglur. Yn ystod haf 2023, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ganllawiau diwygiedig i staff. Rydym yn nodi, fodd bynnag, bod nifer y cyflwyniadau yn dal i fod yn isel, a allai olygu y bydd yn cymryd amser i ymwreiddio'r trefniadau newydd. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn adolygu cyflwyniadau rhoddion a lletygarwch fel mater o drefn gan roi cyngor a chanllawiau yn ôl yr angen.

33 Ar hyn o bryd, dim ond y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno datganiadau o fuddiant, er ein bod yn deall bod yr Ymddiriedolaeth yn bwriadu ehangu'r gofyniad hwn i gynnwys penderfynwyd uwch pellach yn 2024. Mae'r Gofrestr o Ddatganiadau o Fuddiant ar gyfer y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'r Gofrestr o Roddion, Lletygarwch a nawdd bellach ar gael yn gyhoeddus ar wefan yr Ymddiriedolaeth (gweler **Atodiad 2**, **Argymhelliad 1c 2022**).

34 Yn 2022, amlygwyd pryderon am adolygiad polisi prydlon gennym. Ym mis Awst 2023, adroddodd yr Ymddiriedolaeth mai dim ond 14% (13 o 93) o'i bolisïau oedd o fewn y dyddiad adolygu. Er bod hyn dal yn bryder eglur, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu cynllun cadarn ac wedi'i flaenoriaethu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad sylweddol hwn, gan gynnwys adolygiad brys o'i bolisi ar bolisïau. Yn y tymor hwy, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn bwriadu cryfhau ei phroses ar gyfer datblygu dogfennau rheolaeth ysgrifenedig. Mae Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth yn monitro cynnydd yr holl waith i wella amseriad adolygiadau polisi yn briodol ac fel mater o drefn.

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor

35 Ystyriwyd gennym a yw cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor yn cael eu cynnal yn briodol ac yn effeithiol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:

- strwythur pwyllgorau priodol, integredig, ac sy'n gweithredu'n dda ar waith, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol, yn adlewyrchu canllawiau perthnasol, ac yn helpu i fodloni gofynion statudol;
- agendâu a rhaglenni gwaith Bwrdd a phwyllgor yn cwmpasu pob agwedd ar eu Cymchoedd Gorchwyl priodol yn ogystal â chael eu llunio ar sail barhaus gan Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
- cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor sydd wedi'u cadeirio'n dda sy'n dilyn prosesau y cytunwyd arnynt, â'r aelodau yn arsylwi defodau cyfarfod ac yn cynnig cydbwysedd da o graffu, cefnogaeth, a her; a

- phwyllgorau yn derbyn ac yn gweithredu ar sicrwydd gofynnol ac yn darparu sicrwydd prydlon a phriodol i’r Bwrdd.
- papurau Bwrdd eglur a phrydlon sy’n cynnwys y lefel angenrheidiol/priodol o wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol, craffu, a sicrwydd.

36 Canfuwyd gennym, **yn gyffredinol, bod cyfarfodydd Bwrdd a pwyllgor yn cael eu cynnal yn briodol ac yn effeithiol**.

37 Mae gan yr Ymddiriedolaeth strwythur pwyllgorau integredig ac sy’n gweithredu’n dda sy’n cyd-fynd â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol ac yn rhoi sylw da i’r rhain. Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull cyffredinol effeithiol ar gyfer pennu agendâu pwyllgorau sy’n cynnwys y cadeirydd, cyfarwyddwr arweiniol pwyllgor ac ysgrifenyddiaeth. Yn ystod 2022-23, adolygodd pob pwyllgor ei gylch gorchwyl a’i ‘gylchoedd busnes’[1] i sicrhau sylw llawn i’w cylch gwaith ac i sicrhau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni. Rydym hefyd yn nodi bod Pwyllgor Partneriaeth Academaidd yr Ymddiriedolaeth, a sefydlwyd yn wreiddiol i sicrhau statws Ymddiriedolaeth Prifysgol, wedi ehangu ei gylch gwaith i ganolbwyntio’n ehangach ar ymchwil ac arloesi.

38 Mae ein harsylwadau diweddar yn dynodi bod cadeiryddion pwyllgorau yn rheoli cyfarfodydd yn dda, gan annog trafodaeth ymhlith yr aelodau ac yn nodi materion i’w huwchgyfeirio yn brydlon ac yn effeithiol i’r Bwrdd. Yn ystod 2023, roedd materion a uwchgyfeiriwyd i’r Bwrdd yn cynnwys hen bolisïau, amseroedd ymateb Gweithio i Wella[2] gwael, a phryderon parhaus yn ymwneud ag effaith pwysau gweithredu ar ofal cleifion a llesiant staff.

39 Mae’r Bwrdd a’i bwyllgorau yn derbyn gwybodaeth o ansawdd da yn gyffredinol i gynorthwyo craffu, cefnogaeth, a her effeithiol. Mae papurau ar gael cyn cyfarfodydd ac mae eu hansawdd yn gyffredinol dda. Fodd bynnag, mae rhai papurau yn hirfaith, sy’n cael ei adlewyrchu mewn adborth mewn hunanasesiadau pwyllgor a sylwadau gan aelodau pwyllgorau. Dylai canllawiau diweddar gan Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd ar ysgrifennu adroddiadau cryno helpu i gynorthwyo gwelliannau yn y maes hwn. Hefyd, gallai’r Ymddiriedolaeth hefyd ddefnyddio myfyrdodau ar ôl cyfarfodydd, cyfarfodydd gosod agenda a sesiynau datblygu’r bwrdd i fyfyrio ar gynnydd i wella papurau ac egluro disgwyliadau.

40 Yn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2022, nodwyd gennym fod angen i gyfarwyddwyr anweithredol wella craffu fel y gallant fod yn sicr bod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i fynd i’r afael â meysydd o ansawdd gwasanaeth gwael. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth ystyried a myfyrio yn ofalus ar yr adborth hwn, gan gynnwys drwy ein gwahodd i arsylwi mwy o gyfarfodydd pwyllgor a darparu adborth penodol i bwyllgorau. Canfu ein

[1] Mae ‘cylchoedd busnes’ pwyllgorau yn cyfeirio at y rhaglen o waith y mae gan bwyllgorau gwaith drosolwg arnynt yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys eitemau y mae’n ddyletswydd statudol arnynt i’w goruchwylio.

[2] Gweithio i Wella yw’r broses ar gyfer codi pryderon neu gwynion yn GIG Cymru.

harsylwadau diweddar her adeiladol well ac wedi'i chydbwyso'n dda. Mae enghreifftiau yn cynnwys trafod canlyniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adolygiad blynyddol yr Ymddiriedolaeth o fetrigau perfformiad a ddefnyddir ar gyfer monitro perfformiad rheolaidd yr Ymddiriedolaeth.

## Ymrwymiad y Bwrdd i glywed gan gleifion/defnyddwyr gwasanaeth a staff

41 Ystyriwyd gennym a yw'r Bwrdd yn hyrwyddo ac yn dangos ymrwymiad i glywed gan gleifion/defnyddwyr gwasanaeth a staff. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r Bwrdd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau priodol i glywed gan gleifion/defnyddwyr gwasanaeth a staff.

42 Canfuwyd gennym fod yr Ymddiriedolaeth **yn gwneud defnydd effeithiol o straeon staff a chleifion a'i fod yn cryfhau ei ddull i wneud defnydd o ymweliadau'r bwrdd**.

43 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wneud defnydd da o straeon cleifion a staff i gynorthwyo dealltwriaeth aelodau'r Bwrdd a'r pwyllgorau o brofiadau defnyddwyr gwasanaeth a staff. Mae ein harsylwadau yn dynodi bod aelodau'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn gwerthfawrogi'r straeon hyn yn fawr, ac maent yn hybu trafodaeth bellach ac yn gosod y naws yn ddefnyddiol ar gyfer cyfarfodydd. Yn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2022, codwyd yr angen gennym i'r Ymddiriedolaeth nodi'r camau y gall eu cymryd i fynd i'r afael â materion a nodir mewn adroddiadau profiad cleifion. Mae ein gwaith eleni yn dynodi bod mwy i'w wneud (gweler **Atodiad 2**, **Argymhelliad 2, 2022**).

44 Mae'n bwysig bod gan aelodau'r Bwrdd fynediad hefyd at wybodaeth y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol i ganiatáu iddynt driongli gwybodaeth a chlywed yn uniongyrchol gan gleifion a staff. Cymeradwyodd y Bwrdd Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer ymweliadau aelodau'r Bwrdd ym mis Mai 2023. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sefydlu proses adrodd ac yn cynllunio'r rownd nesaf o ymweliadau, gan gynnwys sicrhau sylw daearyddol a sefydliadol priodol.

## Cydlyniant y Bwrdd ac ymrwymiad i welliant parhaus

45 Ystyriwyd gennym a yw'r Bwrdd yn sefydlog ac yn gydlynol ac yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:

- Fwrdd sefydlog a chydlynol â chorff o arweinwyr uwch sydd â'r gallu, y sgiliau, a'r profiad priodol;
- y Bwrdd a'i bwyllgorau yn adolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canfyddiadau i hysbysu a chefnogi gwelliant parhaus; a
- rhaglen berthnasol o ddatblygu'r Bwrdd, cymorth, a hyfforddiant ar waith.

46 Canfuwyd gennym fod yr Ymddiriedolaeth **yn cymryd camau priodol i gynnal sefydlogrwydd a chydlyniant y Bwrdd a bod ymrwymiad i welliant parhaus**.

47 Ers ein Hasesiad Strwythuredig blaenorol, mae’r Bwrdd wedi bod yn sefydlog i raddau helaeth, â dim ond un newid i’r aelodaeth, sef Cyfarwyddwr Digidol newydd. Fodd bynnag, dros y misoedd nesaf, mae’r Ymddiriedolaeth yn rhagweld sawl newid i’w haelodaeth cyfarwyddwyr anweithredol, wrth i rai gyrraedd diwedd eu penodiadau tymor sefydlog.[3] Er bod gweithgarwch recriwtio yn parhau, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael ei chyfyngu yn ystod 2023 o orfod aros sawl mis am benodiad Gweinidogol uniongyrchol o’i His-gadeirydd. I gynorthwyo tra bod y swydd hon yn wag, mae’r Bwrdd wedi penodi cyfarwyddwr anweithredol presennol fel Is-gadeirydd interim o fis Rhagfyr tan fis Medi 2024.

48 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth baratoi’n dda ar gyfer ei phroses recriwtio aelodau’r bwrdd trwy ddadansoddi cymysgedd sgiliau aelodau’r bwrdd i nodi lle gallai fod angen iddi sicrhau profiad penodol ychwanegol. Mae ganddi raglen gynefino gynhwysfawr hefyd sy’n ymgorffori dysgu o brofiadau’r penodiadau diweddaraf i’r Bwrdd.

49 Mae’r Bwrdd a’i bwyllgorau yn adolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd trwy hunanasesiadau blynyddol. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys hunanasesiad o gydymffurfiad â’r Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer 2017. Adroddwyd canfyddiadau o rownd 2023 i’r Bwrdd, gan gynnwys crynodeb o gryfderau a meysydd i’w gwella a nodwyd gan aelodau. Dangosodd adborth bod yr aelodau yn hapus gydag agendâu pwyllgorau a’r broses ar gyfer uwchgyfeirio pryderon i’r bwrdd, ond yr hoffent weld gwelliannau, fel lleihau hyd papurau pwyllgor a mwy o bwyslais ar ganlyniadau. Fel y trafodwyd ym **mharagraff 39**, mae’r Ymddiriedolaeth eisoes yn dangos camau i fynd i’r afael â’r adborth hwn.

50 Mae rhaglen datblygu’r bwrdd bod dau fis yr Ymddiriedolaeth yn darparu papurau briffio ffurfiol a thrafodaethau agored am strategaeth a pherfformiad. Mae pynciau diweddar yn cynnwys strategaeth sefydliadol, aeddfedrwydd y bwrdd a chydweithrediad â gwasanaethau brys, ‘goleuadau glas’ eraill. Mae’r Ymddiriedolaeth yn datblygu rhaglen datblygu’r bwrdd tymor canolig gyda’r bwriad o ddod yn Fwrdd perfformiad uchel. Mae’n bwriadu cyflwyno’r rhaglen newydd yn 2024, ar ôl iddo lenwi pob swydd cyfarwyddwr anweithredol.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

51 Ystyriwyd gennym a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

[3] Rydym hefyd yn nodi y disgwylir i Gyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yr Ymddiriedolaeth ymddeol ym mis Rhagfyr 2023. Er na fydd swydd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn cael ei disodli, bydd y Cyfarwyddwr Parafeddygaeth yn meddu ar y portffolio gweithredol o 1 Ionawr 2024. Bydd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Clinigol yn cynnwys dwy swydd Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt ran-amser, un ar gyfer Arbenigwr Gofal Acíwt ac un ar gyfer Arbenigwr Gofal Sylfaenol. Byddant yn adrodd i’r Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth.

52 Canfuwyd gennym fod yr Ymddiriedolaeth **yn cryfhau ei systemau sicrwydd corfforaethol, ond mae mwy i'w wneud mewn meysydd allweddol gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac ymdrin â phryderon a digwyddiadau. Mae perfformiad gweithredu yn parhau i fod yn eithriadol o heriol oherwydd galw cynyddol a phwysau ehangach ar y system**.

## Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau corfforaethol a strategol

53 Ystyriwyd gennym a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio, a chraffu ar risgiau corfforaethol a strategol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:

- Fframwaith rheoli risg priodol a chyfredol ar waith, sydd wedi'i seilio ar bolisïau, gweithdrefnau, a swyddogaethau a chyfrifoldebau eglur;
- y Bwrdd yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar effeithiolrwydd y system rheoli risg;
- y Bwrdd yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar risgiau corfforaethol;
- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd cyfredol ac sydd ar gael i'r cyhoedd ar waith, sy'n dod â'r holl wybodaeth berthnasol am y risgiau i gyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol y sefydliad ynghyd; a'r
- Bwrdd yn cymryd cyfrifoldeb, yn adolygu, yn diweddaru, ac yn defnyddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i oruchwylio, craffu, a mynd i'r afael â risgiau strategol.

54 Canfuwyd gennym fod gan yr Ymddiriedolaeth **drefniadau rhesymol ar gyfer goruchwylio risgiau corfforaethol, ond mae angen iddi ail-fframio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd fel dull sy'n dod â'r holl wybodaeth am y risgiau i gyflawni amcanion strategol ynghyd**.

55 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i oruchwylio trefniadau rheoli risg corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn briodol. Mae'n ymddangos bod trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynnal ei chofrestr risg corfforaethol yn gweithio'n dda. Mae Tîm Arweinyddiaeth y Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn adolygu'r gofrestr risg corfforaethol fel mater o drefn cyn trosolwg gan bwyllgorau a'r Bwrdd. Mae ein harsylwadau o gyfarfodydd pwyllgor a Bwrdd yn dynodi bod trafodaethau yn aml yn canolbwyntio ar risgiau sy'n peri'r mwyaf o bryder i'r Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn cynnwys perfformiad coch ac oren, ansawdd gofal a chanlyniadau, perfformiad ariannol, a materion gweithlu, fel absenoldeb oherwydd salwch.

56 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod nad yw sawl un o'i risgiau allweddol yn gyfan gwbl o fewn chylch rheolaeth. Mae rheoli risgiau allweddol yn ymwneud yn benodol ag amseroedd ymateb ambiwlansys a niwed cysylltiedig yn dibynnu ar weithio partneriaeth agos i nodi a gweithredu camau lliniaru risg. Mae'r Ymddiriedolaeth yn trafod ei risgiau sy'n sgorio uchaf yn rheolaidd gyda rhanddeiliaid allanol. Mae hyn yn cynnwys rhwydweithiau cymheiriaid fel grwpiau Cyfarwyddwyr Nyrsio a Phrif

Swyddogion Gweithredu, fforwm Prif Weithredwr Cymru Gyfan, a chyda Llywodraeth Cymru. Er gwaethaf y trafodaethau hyn, a chamau'r Ymddiriedolaeth i liniaru risgiau, yn aml nid yw'r lefel gyffredinol o risg yn lleihau.

57 Mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen sylweddol o waith i fwrw ymlaen ymhellach â'i rhaglen trawsnewid risg erbyn mis Ebrill 2024. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i ddatblygu polisi rheoli risg newydd ynghyd â chanllawiau staff sylfaenol ar ddull y sefydliad a'r cymorth sydd ar gael i reoli risgiau gweithredu. Mae gwaith i wella cysondeb rheoli ac uwchgyfeirio risg ar y gweill. Mae hyn yn cynnwys darparu rhith-sesiynau hyfforddi ar risg gyda grwpiau allweddol yn y sefydliad, gan gynnwys Tîm Arweinyddiaeth y Cyfarwyddwyr Cynorthwyol a Phenaethiaid Gwasanaeth Gweithredu. Erbyn mis Ebrill 2024, mae'r Bwrdd hefyd yn bwriadu datblygu datganiadau parodrwydd i dderbyn risg.

58 Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn mapio risgiau corfforaethol y sefydliad yn erbyn yr hyn i'w gyflawni o'i Gynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r Ymddiriedolaeth yn diweddaru ei Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn rheolaidd ac yn adrodd hyn i'r Bwrdd gan neilltuo risgiau penodol i bob pwyllgor. Fodd bynnag, mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn canolbwyntio ar y risgiau gweithredu corfforaethol, ac felly'n cyfyngu i ba raddau y mae'n darparu fframwaith ar gyfer sicrwydd ynghylch cyflawni amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth. Prin hefyd oedd y drafodaeth a welsom ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd gan y Bwrdd a'r pwyllgorau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu datblygu'r Fframwaith erbyn mis Ebrill 2024 i ganolbwyntio ar y risgiau yn ymwneud â chyflawni amcanion straetgol yr Ymddiriedolaeth.

## Dull corfforaethol o oruchwylio perfformiad sefydliadol

59 Ystyriwyd gennym a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio, a chraffu ar berfformiad sefydliadol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:

- fframwaith rheoli perfformiad priodol, cynhwysfawr, a chyfredol ar waith, wedi'i seilio ar swyddogaethau a chyfrifoldebau eglur; a'r
- Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar berfformiad sefydliadol.

60 Canfuwyd gennym **er bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau rheoli a monitro perfformiad rhesymol, mae perfformiad gweithredu yn parhau i fod yn eithriadol o heriol**.

61 Mae Fframwaith Perfformiad ac Ansawdd yr Ymddiriedolaeth, a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2022, yn gynhwysfawr ac yn nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau eglur ar gyfer staff. Mae'r Grŵp Llywio Ansawdd a Rheoli Perfformiad yn goruchwylio datblygiad parhaus y fframwaith sy'n cynnwys treialu ac adolygu'r dulliau gorau ar gyfer ymgorffori yn effeithiol y gofynion newydd a gyflwynwyd gan y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Er gwaethaf hyn, mae perfformiad gweithredu yn dal i fod wedi'i herio'n eithriadol oherwydd galw

cynyddol, pwysau ehangach ar y system pressures a'r aneffeithlonrwydd canlyniadol. Gyda'i gilydd, mae'r heriau hyn yn arwain at niwed i gleifion y gellid ei osgoi.

62 Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd ar ei pherfformiad mewn Adroddiadau Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol y mae'n eu darparu i bob cyfarfod pwyllgor a Bwrdd. Er gwaethaf problemau perfformiad cyson, mae'r Bwrdd yn parhau i ddarparu her a chraffu sy'n ceisio annog gwelliant. Adolygodd yr Ymddiriedolaeth ei dull ar gyfer adrodd ar berfformiad ym mis Mai 2023. Arweiniodd hyn at gyfres well a mwy cyflawn o fetrigau perfformiad. Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth ei system Cofnodion Clinigol Cleifion electronig ar waith yn ystod 2022-23. Ar ôl iddi ymwreiddio, dylai'r system hon alluogi'r Ymddiriedolaeth i gysylltu gweithgarwch darparu yn well â chanlyniadau cleifion.

## Dull corfforaethol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau

63 Ystyriwyd gennym a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar ansawdd gwasanaethau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:

- drefniadau corfforaethol ar waith sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn bodloni ei ofynion o dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (2020) newydd;
- fframwaith (neu rywbeth tebyg) ar waith sy'n cefnogi llywodraethu ansawdd effeithiol; a'r
- Bwrdd a phwyllgorau perthnasol yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

64 Canfuwyd gennym fod yr Ymddiriedolaeth **yn canolbwyntio ar ansawdd gwasanaethau, â throsolwg da gan y pwyllgorau, ond mae perfformiad o ran digwyddiadau a phryderon wedi gwaethygu ac mae angen staff ychwanegol i alluogi'r Ymddiriedolaeth i sicrhau cydymffurfiad a'r Ddyletswydd Gonestrwydd newydd**.

65 Cymeradwyodd y Bwrdd ei Strategaeth Ansawdd yn 2021, a disgwylir iddi gael ei hadolygu yn 2024. Mae ei Bwyllgor Ansawdd, Profiad y Claf a Diogelwch yn parhau i adolygu gwybodaeth ansawdd allweddol yn briodol, gan ganolbwyntio ar y lefel uchel o risg o niwed i gleifion. Mae hyn yn cynnwys cynnydd[4] i niferoedd y digwyddiadau, y pryderon a'r ceisiadau gan y crwner ac adroddiadau rheoliad 28 rheolaidd[5]. Ym mis Medi 2023, adroddodd yr Ymddiriedolaeth ôl-groniad o 200 o

[4] Yn ystod Chwarter 2 2023-24, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 285 o ddigwyddiadau, 58 o bryderon, 183 o geisiadau gan y crwner a thri adroddiad rheoliad 28.

[5] Cyflwynir Adroddiadau Rheoliad 28 gan grwneriaid i unigolyn, sefydliadau, awdurdodau lleol neu adrannau llywodraeth a'u hasiantaethau pan fyddant yn credu y dylid cymryd camau i atal marwolaethau pellach.

bryderon, oherwydd cyfyngiadau capasiti a nifer gynyddol o gwynion. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad y Claf a Diogelwch yn gweithredu her adeiladol, cymorth, ac mae'n uwchgyfeirio pryderon fel y rhain i'r Bwrdd.

66 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu ei threfniadau i ddarparu gofynion newydd o dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (2020). Cynhaliodd hunanasesiad yn erbyn meysydd llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd Safonau Iechyd a Gofal 2015. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi diffyg adnodd staffio gwerth £300,000 sydd ei angen i alluogi'r Ymddiriedolaeth i ymateb yn llawn i ofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd. Ar adeg ein gwaith maes, roedd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried opsiynau i ariannu'r gofyniad adnodd hwn.

## Dull corfforaethol o olrhain argymhellion

67 Ystyriwyd gennym a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar systemau ar gyfer olrhain cynnydd i fynd i'r afael ag argymhellion a chanfyddiadau archwiliadau ac adolygiadau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o systemau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer olrhain ymatebion i argymhellion a chanfyddiadau archwiliadau ac adolygiadau eraill yn brydlon.

68 Canfuwyd gennym fod yr Ymddiriedolaeth **yn cryfhau ei systemau ar gyfer olrhain ymatebion i argymhellion archwiliadau**.

69 Mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio gwella sut mae'n monitro gweithrediad argymhellion archwiliadau mewnol ac allanol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda Gofal Iechyd Digidol Cymru i ddatblygu system olrhain wedi'i hawtomeiddio ar gyfer mis Mawrth 2024. Dylai hyn leihau'r gwaith llaw sy'n ofynnol i gadw'r system olrhain yn gyfredol. Yn y cyfamser, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu system olrhain dros dro sy'n darparu gwybodaeth eglur am gamau y gwnaeth eu cwblhau yn ystod y chwarter blaenorol a dyddiadau diwygiedig ar gyfer camau gweithredu, pan fo'n ofynnol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi datblygu canllaw archwilio i esbonio swyddogaeth archwilio, y dull ar gyfer datblygu ymatebion rheolwyr i argymhellion archwiliadau, a chyfrifoldebau ar gyfer cynnal y system olrhain archwiliadau. Mae'r camau hyn hefyd wedi cynyddu dealltwriaeth o ddiben gwaith archwilio yn ogystal â swyddogaeth drosolwg bob pwyllgor ar gyfer eu systemau olrhain priodol. Mae gwaith â phwyslais wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth i gwblhau a lleihau'n sylweddol y nifer o argymhellion na aethpwyd i'r afael â nhw ar ei system olrhain archwiliadau.

# Dull corfforaethol o gynllunio

70 Ystyriwyd gennym a oes gan yr Ymddiriedolaeth dull corfforaethol cadarn o lunio strategaethau a chynlluniau corfforaethol a goruchwylio eu darpariaeth.

71 Canfuwyd gennym fod gan yr Ymddiriedolaeth **ddull corfforaethol da o ddatblygu strategaethau a chynlluniau, ond nad yw cynlluniau yn cynnwys**

**cerrig milltir CAMPUS ac nid yw adroddiadau cyflawni yn darparu digon o eglurder ar ba un a yw'r canlyniadau a fwriadwyd yn cael eu cyflawni**.

## Dull corfforaethol o lunio strategaethau a chynlluniau

72 Ystyriwyd gennym a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o lunio, goruchwylio, a chraffu ar ddatblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:

- gweledigaeth a strategaeth hirdymor eglur wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd ar waith, sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, wedi'u gwreiddio yn iechyd y boblogaeth, ac wedi'u hysbysu gan ddadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau, a risgiau;
- strategaeth glinigol hirdymor briodol a gymeradwywyd gan y Bwrdd;
- trefniadau corfforaethol priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer datblygu a llunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a chynlluniau corfforaethol eraill; a'r
- Bwrdd yn craffu'n briodol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynlluniau corfforaethol eraill cyn eu cymeradwyo.

73 Canfuwyd gennym fod gan yr Ymddiriedolaeth **ddull corfforaethol da ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau a'u bod yn destun craffu priodol gan y Bwrdd**.

74 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fynd ar drywydd yr uchelgeisiau a'r weledigaeth a amlinellir yn ei fframwaith strategol hirdymor (y Fframwaith) o'r enw 'Cyflawni Rhagoriaeth, Ein Gweledigaeth ar gyfer 2030' a'r Strategaeth Glinigol 2020-2025 ategol. Mae'r dogfennau strategol hyn yn esbonio gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth o ddiwygio ei model gwasanaeth traddodiadol a sut y bydd yn rheoli galw yn wahanol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu ymgynghoriadau ffôn ac ehangu'r ddarpariaeth o driniaeth yn y gymuned gyda'r nod o leihau'r lefelau o gludiant ambiwlansys i'r ysbyty.

75 Yn ystod 2023, mae'r Ymddiriedolaeth wedi myfyrio ar y Fframwaith, ac mewn sesiwn datblygu'r bwrdd fe wnaeth y bwrdd adolygu ac ail-gadarnhau ei ymrwymiad parhaus i'r amcanion strategol. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn dod yn sefydliad rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn fuan, ac yna bydd angen iddi hefyd bennu amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

76 Roedd Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26 yr Ymddiriedolaeth yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru a sicrhaodd gymeradwyaeth Gweinidogion. Dangosodd yr Ymddiriedolaeth ddull da o ran ymgysylltu mewnol ac allanol i gynorthwyo datblygiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Roedd hyn yn cynnwys arweinwyr uwch yr Ymddiriedolaeth, Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans, a phartneriaid Bwrdd Iechyd, i sicrhau bod y cynllun wedi'i hysbysu'n dda ac yn cyd-fynd â'r system iechyd ehangach. Roedd lefelau cynyddol o ymgysylltiad â staff yr Ymddiriedolaeth hefyd (gweler **Atodiad 2, Argymhelliad 3**). Cafodd y

Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd gyfleoedd priodol i adolygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig drafft cyn craffu'n ffurfiol ar y Cynllun yng nghyfarfod Bwrdd mis Mawrth 2023. Trafododd a nododd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys y Cynllun Tymor Canolig Integredig ym mis Mawrth 2023 hefyd.

77 O ran trefniadau cynllunio ehangach, cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Pobl a Diwylliant a oedd wedi'i oedi ym mis Mai 2023. I hysbysu ei datblygiad o'r Cynllun Pobl a Diwylliant, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth ymgysylltu'n effeithiol â staff, cynrychiolwyr undebau llafur, cyfarwyddwyr anweithredol, a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Datblygu Gweithlu a Sefydliadol sy'n gymheiriaid a gwasanaethau ambiwlans eraill yn y DU. Hefyd, cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Cyflawni i ategu Fframwaith Ymgysylltu wedi'i adnewyddu'r Ymddiriedolaeth ym mis Chwefror 2023. Mae hwn yn nodi'r ffordd y bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i hysbysu, cyfathrebu, ymgysylltu a dylanwadu ar bartneriaid allweddol (gweler **Atodiad 2, Argymhelliad 4**). Rydym yn nodi nad yw'r Cynllun Tymor Canolig Integredig diweddaraf na'r Cynllun Pobl a Diwylliant wedi'u cyhoeddi ar wefan gyhoeddus yr Ymddiriedolaeth eto (**Argymhelliad 2**).

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r ddarpariaeth o strategaethau a chynlluniau

78 Ystyriwyd gennym a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio gweithrediad a darpariaeth cynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:

- gynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn cynnwys blaenoriaethau/amcanion strategol eglur a cherrig milltir, targedau, a chanlyniadau CAMPUS[6] sy'n cynorthwyo monitro ac adrodd; a'r
- Bwrdd yn monitro'n briodol gweithrediad a darpariaeth cynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

79 Canfuwyd gennym **nad yw cynlluniau yn cynnwys camau CAMPUS ac nad yw adroddiadau ar gynnydd ar eu darpariaeth yn cynnig digon o eglurder ynghylch a yw'r canlyniadau a fwriedir yn cael eu cyflawni**.

80 Mae Fframwaith Strategol Hirdymor yr Ymddiriedolaeth bron i bum mlynedd oed bellach. Er i'r Bwrdd adolygu a chadarnhau perthnasedd parhaus yr amcanion a nodwyd yn y Fframwaith yn 2022, mae bellach yn ceisio gwerthuso'r cynnydd darparu hyd yma ac yn bwriadu adrodd ar hyn ddechrau 2024. Hefyd, er na amlygwyd unrhyw broblemau sylweddol o ran proses datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26 yr Ymddiriedolaeth ar gyfer eleni, mae'r Bwrdd yn bwriadu sicrhau bod Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024-27 yn cynnwys mwy o eglurder ynghylch yr hyn y mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio ei gyflawni ym mlynyddoedd dau a thri.

[6]Cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, a synhwyrol.

81 Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26 yn cynnwys pum rhaglen gyflawni gan gynnwys gweithrediadau Gwasanaethau Meddygol Brys a phedair rhaglen alluogi, gan gynnwys ffrydiau gwaith cynaliadwyedd ariannol. Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26 yn nodi'r hyn y mae'r Ymddiriedolaeth yn gobeithio ei gyflawni. Fodd bynnag, nid yw'r camau yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26 i gyd yn CAMPUS, nid yw llawer o gamau yn cynnwys canlyniadau mesuradwy penodol, ac mae'n aneglur ym mha flwyddyn y disgwylir i bob cam gael ei gyflawni (**Argymhelliad 3**). Fodd bynnag, Mae Adroddiadau Sicrwydd Cyflawni sy'n nodi cynnydd cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn cynnwys cerrig milltir cyflawni ar gyfer pob cam gweithredu. Dylai'r cerrig milltir cyflawni fod yn eglur yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig i gynorthwyo darllenwyr yn eu dealltwriaeth o bryd y bwriedir i gamau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig gael eu cyflawni.

82 Cyfarwyddiaethau sy'n rheoli eu rhaglenni galluogi corfforaethol priodol yn gyffredinol. Fodd bynnag, caiff rhaglenni cyflawni strategol eu cydgysylltu a'u monitro gan fyrddau trawsnewid sy'n bwydo i mewn i'r Bwrdd Trawsnewid Strategol. Mae'r Bwrdd Trawsnewid Strategol yn derbyn adroddiadau sicrwydd ysgrifenedig tri misol ar gyfer pob rhaglen gyflawni, gan gynnwys cynnydd yn erbyn cerrig milltir cyflawni y cytunwyd arnynt. Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw'r Bwrdd Trawsnewid Strategol yn ystyried perfformiad fel mater o drefn, a ddylai fod yn ddull allweddol i ddeall a yw'r rhaglenni cyflawni yn cael yr effaith a fwriadwyd, neu a allai gwahanol drywydd gweithredu fod yn angenrheidiol.

83 Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd yn derbyn diweddaraidau tri misol ar gynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'n gadarnhaol nodi bod yr adroddiadau cyflawni bellach yn cynnwys gwybofaeth fwy cyfoethog nag adroddiadau blaenorol a oedd yn adrodd a oedd camau ar y trywydd iawn ai peidio yn unig. Yn benodol, mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad bellach yn derbyn manylion sylweddol yn dangos cynnydd pob rhaglen gyflawni. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod adroddiadau yn parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar statws camau, yn hytrach na'r canlyniad a gyflawnwyd (**Argymhelliad 4**).

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

84 Ystyriwyd gennym a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o reoli ei hadnoddau ariannol.

85 Canfuwyd gennym fod yr Ymddiriedolaeth **yn dangos perfformiad ariannol cryf a dull da o gynllunio â throsolwg priodol gan y Bwrdd a'r pwyllgorau. Fodd bynnag, gallai'r ddibyniaeth ar gynlluniau arbedion nad ydynt yn gylchol, aneffeithlonrwydd gweithredu wedi'u hachosi gan oedi cyn trosglwyddo a'r diffyg cyllid ychwanegol sydd ar gael gyfyngu'r gallu i gefnogi cynlluniau moderneiddio gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth**.

### Amcanion ariannol

86 Ystyriwyd gennym a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o gyflawni ei hamcanion ariannol allweddol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r:

- sefydliad yn cyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2022-23, a chyfnod tair blynedd treigl 2020-21 i 2022-23; a'r
- sefydliad ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau yn 2023-24.

87 Canfuwyd gennym fod yr Ymddiriedolaeth **wedi parhau ei hanes ariannol da a'i bod ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gyflawni ei hamcanion a'i dyletswyddau ar gyfer 2023-24**.

88 Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i gynnal hanes da o gyflawni ei dyletswyddau ariannol yn 2022-23, gan gofnodi gwarged bach o £62,000, ac adennill costau dros y cyfnod tair blynedd treigl 2020-23. Gwariodd yr Ymddiriedolaeth ei gwariant cyfalaf yn unol â'r cynlluniau, ac roedd polisi taliadau sector cyhoeddus ar y trywydd iawn.

89 O fis saith (Hydref), 2023-24, mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd gwarged bach o £108,000 ac yn rhagweld sefyllfa o adennill costau ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau gwariant cyfalaf wedi'u cwblhau eto. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn wynebu mwy o heriau ariannol nag mewn blynyddoedd a fu. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn aros am gadarnhad o gyllid cylchol ar gyfer y staff rheng flaen ychwanegol a recriwtiwyd yn ystod 2022 a oedd yn ofynnol i reoli pwysau'r gaeaf. Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth £3 miliwn ar gyfer y costau cyflog staff ychwanegol yn 2022-23 ond mae wedi bod yn aneglur ynghylch a fyddai Llywodraeth Cymru neu'r Comisiynwyr yn darparu'r costau blwyddyn lawn cylchol, a ddaeth i gyfanswm o £5.7 miliwn yn 2023-24. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth Cymru ac, o fis saith, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru £3.5 miliwn o gyllid ar gyfer 2023-24. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld llenwi'r bwlch cyllid sy'n weddill trwy orgyflawniad cynlluniau arbedion a defnydd o gronfa hapddigwyddiad.

## Dull corfforaethol o gynllunio ariannol

90 Ystyriwyd gennym a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar gynllunio ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:

- drefniadau cynllunio ariannol corfforaethol eglur a chadarn ar waith;
- trefniadau ariannol effeithiol ar waith sy'n galluogi'r Bwrdd i ddeall ysgogiadau cost a sut maent yn effeithio ar gyflawniad amcanion strategol;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau ariannol cyn eu cymeradwyo;
- cynlluniau gwella arbedion a chostau cynaliadwy, realistig, ac wedi'u costio'n gywir ar waith sydd â'r nod o gynorthwyo cynaliadwyedd ariannol a thrawsnewid gwasanaethau; a'r
- Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau gwella arbedion a chostau cyn eu cymeradwyo.

91 Canfuwyd gennym fod gan yr Ymddiriedolaeth **ddull corfforaethol cadarn o gynllunio ariannol, ond gallai'r ddibyniaeth ar gynlluniau arbedion nad ydynt yn gylchol greu heriau ariannol sylweddol yn y blynyddoedd i ddod, a gallai aneffeithlonrwydd gweithredu costus wedi'i achosi gan oedi trosglwyddiadau o ambiwlansys gyfyngu'r gallu i drawsnewid gwasanaethau**.

92 Fe wnaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad graffu ar gynllun ariannol yr Ymddiriedolaeth yn rhan o'i Gynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26 ym mis Mawrth 2023. Mae'r cynllun ariannol yn nodi'n briodol yr heriau a'r risgiau ariannol presennol, gan gynnwys y diffyg eglurder ar gyfer ariannu staff rheng flaen ychwanegol (gweler **paragraff 89**) a phwysau chwyddiant. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'i hysgogiadau costau, a oedd yn cynnwys eto ar gyfer 2023-24 y costau chwyddiant sylweddol ar gyfer pŵer a thanwydd, trwyddedau digidol ac arbedion nad ydynt yn gylchol a gafodd eu dwyn ymlaen o 2022-23. Yn erbyn y cyd-destun hwn, mae'r cynllun ariannol yn cyflwyno'n rhesymol meysydd y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu blaenoriaethu ar gyfer cyllid, a cheisiodd yr Ymddiriedolaeth gytuno ar yr holl newidiadau gyda chomisiynwyr.

93 Ar adeg cymeradwyo'r cynllun ariannol ar gyfer 2023-24, roedd gan yr Ymddiriedolaeth fwlch ariannu gwerth £6 miliwn. Nododd yr Ymddiriedolaeth werth £3.5 miliwn o arbedion erbyn mis Mawrth 2023, â'r Bwrdd yn gweithredu mewn perygl tan fis pedwar, pan nodwyd a ffurfiwyd y cynlluniau arbedion a oedd yn weddill yn llawn. Ym mis saith (Hydref) 2023-24, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sicrhau arbedion o £4.3 miliwn yn erbyn ei tharged blwyddyn hyd yma o £3.7 miliwn.

94 Ar hyn o bryd, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn nodi'n bendant a yw ei chynlluniau arbedion yn gylchol neu ddim yn gylchol. Yn y dyfodol, dylai cynlluniau ariannol ganolbwyntio ar fodelau gwasanaeth sy'n gynaliadwy yn ariannol i leihau dibyniaeth ar atebion 'rheoli costau' byrdymor (**Argymhelliad 5**). Rydym wedi amlygu yn flaenorol risgiau yn ymwneud â dibyniaeth yr Ymddiriedolaeth ar reoli swyddi gwag i sicrhau arbedion. Mae wedi cynyddu ei tharged arbedion swyddi

staff anweithredol gwag o £907,000 yn 2022-23 i £2.6 miliwn yn 2023-24. Ym mis saith, roedd yr Ymddiriedolaeth yn gorgyflawni yn erbyn y cynllun arbedion o £45,000, ar ôl sicrhau £228,000. Hefyd, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ceisio rheoli lefel dyraniad goramser staff. Mae'r rhain yn atebion byrdymor a allai greu mwy o bwysau neu gymell gwariant asiantaeth ychwanegol i wneud iawn am fylchau adnoddau na gynlluniwyd dros y gaeaf.

95 Hefyd, yn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2022, disgrifiwyd gennym sut roedd oedi cyn trosglwyddo yn arwain at aneffeithlonrwydd a gostiodd £50 miliwn yn 2021-22, ac mae achosion o oedi cyn trosglwyddo yn dal i fod yn annerbyniol o uchel yn 2023. Mae pwysau gweithredu ac aneffeithlonrwydd cysylltiedig yn golygu bod yr Ymddiriedolaeth wedi'i chyfyngu o ran ei gallu i drawsnewid ei gweithlu yn unol ag uchelgeisiau tymor hwy'r Ymddiriedolaeth.

## Dull corfforaethol o reoli ariannol

96 Ystyriwyd gennym a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:

- reolaethau effeithiol ar waith sy'n sicrhau cydymffurfiad â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Cadw a Dirprwyo;
- y Bwrdd yn cynnal trosolwg priodol o drefniadau a pherfformiad yn ymwneud â chamau tendro sengl, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll; a
- datganiadau ariannol y sefydliad ar gyfer 2022-23 yn cael eu cyflwyno'n brydlon, ddim yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, ac wedi derbyn barn archwilio lân.

97 Canfuwyd gennym fod gan yr Ymddiriedolaeth **drefniadau cadarn ar waith i oruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol**.

98 Mae systemau a rheolaethau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn dal i weithredu'n effeithiol. Fel y soniwyd ym **mharagraff 31**, adolygodd y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ym mis Mai a mis Medi 2023. Mae Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth yn goruchwylio ac yn craffu'n briodol ar wybodaeth am golledion a thaliadau arbennig yn ei sesiwn gyhoeddus, a gweithgarwch gwrth-dwyll, rheolaethau caffael a chamau tendro sengl yn sesiwn breifat pob cyfarfod. Nid yw'r rhaglen o waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn cynt (hyd at yr adeg adrodd) wedi nodi unrhyw bryderon sylweddol yn ymwneud â rheolaeth ariannol na chyllidebol. Ni adroddwyd unrhyw broblemau rheolaeth ariannol sylweddol i'r Pwyllgor Archwilio eleni.

99 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ddatganiadau ariannol drafft o ansawdd da ar gyfer 2022-23 i'w harchwilio yn unol ag amserlen ofynnol Llywodraeth Cymru. Ni nododd ein harchwiliad unrhyw gamddatganiadau perthnasol neu heb eu cywiro. Yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd o'r cyfrifon, cyhoeddwyd barn archwilio ddiamod gennym ar 25 Gorffennaf 2023.

## Trosolwg y Bwrdd o berfformiad ariannol

100 Ystyriwyd gennym a yw'r Bwrdd yn goruchwylio ac yn craffu'n briodol ar berfformiad ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r:

- Bwrdd yn derbyn adroddiadau cywir, tryloyw, a phrydlon ar berfformiad ariannol, yn ogystal â'r heriau ariannol allweddol, risgiau, a chamau lliniaru; a'r
- Bwrdd yn craffu'n briodol ar yr asesiadau parhaus o sefyllfa ariannol y sefydliad.

101 Canfuwyd gennym fod yr Ymddiriedolaeth **yn darparu adroddiadau prydlon a chywir ar berfformiad ariannol i'r pwyllgorau a'r Bwrdd, ond gallai adrodd fod yn fwy eglur i gryfhau sicrwydd a chraffu**.

102 Ceir trosolwg rheolaidd o wariant ariannol a pherfformiad arbedion ar lefel weithredol a'r Bwrdd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflwyno adroddiadau ariannol yn rheolaidd i'r Bwrdd Trawsnewid Strategol, y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.

103 Ym mis Medi 2023, myfyriodd yr Ymddiriedolaeth ar yr heriau ariannol sector cyhoeddus cynyddol a'u heffaith ar GIG Cymru. O ganlyniad, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth ehangu ei rhaglen cynaliadwyedd ariannol gan adrodd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Mae ein harsylwadau o'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn dangos bod aelodau'r Bwrdd yn deall y sefyllfa ariannol bresennol ac yn sicrhau craffu priodol yn ogystal â chefnogi gwelliannau pan fo'n bosibl.

104 Mae adroddiadau ariannol yn ystod 2023 wedi cynnwys cymysgedd o gyflwyniadau PowerPoint yn cynnwys y sefyllfa fwyaf cyfredol i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, wedi'u dilyn gan adroddiad ysgrifenedig i'r cyfarfod Bwrdd canlynol. Er bod y cyflwyniadau PowerPoint a'r adroddiadau ysgrifenedig dilynol yn amlygu'r sefyllfa ariannol fwyaf cyfredol a risgiau cysylltiedig, mae'r adroddiadau ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn cynnig mwy o fanylion ac eglurder. Fel yr amlygwyd ym **mharagraff 26**, oherwydd amseru, nid yw cyflwyniadau cyllid yn cael eu rhannu'n gyson cyn cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, sy'n golygu na all aelodau baratoi ymlaen llaw. Er bod y dull hwn yn ddealladwy, dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i fod yn wyliadwrus bod cyflwyniadau llafar yn darparu'r eglurder a'r manylion angenrheidiol i gynorthwyo'r cyflwyniadau i alluogi aelodau i ddeall a chraffu ar faterion allweddol. Hefyd, fel y trafodwyd ym **mharagraff 93**, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn ei gwneud yn eglur ar hyn o bryd mewn adroddiadau cyllid pa rai o'i harbedion sy'n gylchol neu ddim yn gylchol.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

**Mae Arddangosyn 2 yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth wedi'i chyfyngu i'r wybodaeth a ddeilliodd o'r dulliau isod.**

| Elfen o'r dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Arsylwadau | Arsylwyd cyfarfodydd Bwrdd gennym yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:<br>• Y Pwyllgor Archwilio;<br>• Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad;<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion;<br>• Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant; a'r<br>• Pwyllgor Partneriaethau Academaidd. |
| Dogfennau | Adolygwyd amrywiaeth o ddogfennau gennym, gan gynnwys:<br>• Cylchoedd Gorchwyl, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau, a chofnodion y Bwrdd a'r Pwyllgorau;<br>• dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau Buddiant, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch;<br>• strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig;<br>• dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Corfforaethol;<br>• adroddiadau allweddol yn ymwneud â pherfformiad a chyllid sefydliadol;<br>• Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol; |

| Elfen o’r dull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | • polisïau a gweithdrefnau perthnasol; ac<br>• adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill. |
| Cyfweliadau | Cyfwelwyd y Swyddogion Uwch a’r Aelodau Annibynnol canlynol gennym:<br>• Y Prif Swyddog Gweithredol;<br>• Y Cadeirydd;<br>• Ysgrifennydd y Bwrdd;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd;<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad;<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; a’r<br>• Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu. |

# Atodiad 2

## Cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn gynt

**Mae Arddangosyn 3 isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu argymhellion o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.**

| Argymhellion o 2022 | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|
| **Llywodraethu gweinyddol**<br>A1 Rydym wedi adnabod cyfleoedd i'r Ymddiriedolaeth gynyddu tryloywder ymhellach trwy gryfhau trefniadau llywodraethu gweinyddol trwy:<br>a) sicrhau bod papurau pwyllgorau cyn cyfarfodydd a chofnodion yn dilyn diwedd cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi mewn modd amserol i wefan yr Ymddiriedolaeth;<br>b) gwella'r modd y cofnodir camau gweithredu gan y Cadeirydd a phenderfyniadau a wneir mewn sesiwn breifat, er enghraifft trwy nodi'r costau a'r risgiau i gyflawni mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed;<br>c) darparu'r datganiadau o fuddiant, rhoddion a lletygarwch fel dogfen benodol sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld; a<br>d) ailystyried cael yr holl wybodaeth atal twyll yn sesiwn breifat y pwyllgor archwilio. | a) **Disodlwyd gan A1b 2023.** Er y bu cynnydd i nifer y papurau a gyhoeddir cyn cyfarfodydd, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd dim ond ar ôl i'r pwyllgor eu cymeradwyo yn y cyfarfod canlynol, sydd ddau neu dri mis yn ddiweddarach.<br>b) **Cwblhawyd.** Bu gostyngiad amlwg i'r defnydd o gamau gweithredu'r Cadeirydd yn ystod 2023, yn ogystal â gwelliannau i'r ffordd y caiff y rhain eu hadrodd i'r Bwrdd. Mae adrodd Camau Gweithredu'r Cadeirydd yn darparu manylion digonol gan gynnwys sicrwydd bod yr Ymddiriedolaeth wedi dilyn gofynion llywodraethu a phroses yn briodol.<br>c) **Cwblhawyd.** Mae cofrestr yr Ymddiriedolaeth o ddatganiadau o fuddiant a'r gofrestr o roddion, lletygarwch a nawdd ar gael drwy wefan yr Ymddiriedolaeth.<br>d) **Cwblhawyd.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ystyried adrodd ei weithgarwch gwrth-dwyll yn sesiwn gyhoeddus y pwyllgor archwilio, ond mae wedi penderfynu peidio. |

| Argymhellion o 2022 | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|
| **Adrodd ar brofiad cleifion**<br>A2 Gwella'r modd yr adroddir yn chwarterol ar brofiad cleifion wrth y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion (QuESt) trwy sicrhau cydbwysedd rhwng adborth cadarnhaol a negyddol a darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n cael ei wneud i ymdrin â'r themâu negyddol sy'n codi yn yr adroddiad. | **Ar y gweill.** Er bod yr Ymddiriedolaeth yn adrodd adborth negyddol a dderbynnir yn ei hadroddiadau profiad cleifion, prin yw'r naratif ar gamau gweithredu sydd ar waith neu yn yr arfaeth i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd. Er bod adborth negyddol yn gofyn am gamau gan sefydliadau eraill yn gyffredinol, mewn meysydd o dan reolaeth yr Ymddiriedolaeth, fel sicrhau gwasanaethau cyfieithu prydlon, byddem yn disgwyl gweld naratif pellach ar y camau y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i wella. |
| **Cynnwys staff yn y broses o ddatblygu cynlluniau allweddol yn y dyfodol**<br>A3 Dylai'r Ymddiriedolaeth gymryd camau i sicrhau bod ei chynlluniau strategol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn cael eu datblygu gyda staff ac yn cael eu goleuo ganddynt. | **Cwblhawyd.** Roedd y broses ar gyfer datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26 yn cynnwys mwy o ymgysylltiad staff nag yn 2022-25. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y dylai hon fod yn nodwedd barhaus waith cynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. |
| **Datblygu cynlluniau cyflawni ymgysylltu**<br>A4 Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi diweddaru ei fframwaith ymgysylltu lefel-uchel yn ddiweddar, dylai geisio mynd ati ar frys i gyhoeddi a chyflawni cynlluniau manwl i roi cymorth iddi ddarparu ymgysylltiad allanol mewn perthynas â phwysau'r system gofal heb ei drefnu. | **Cwblhawyd.** Cymeradwyodd y Bwrdd gynllun cyflawni cam wrth gam y Fframwaith Ymgysylltu yng nghyfarfod mis Ionawr 2023. |

| Argymhellion o 2022 | Disgrifiad o gynnydd |
| --- | --- |
| **Sicrhau bod gwasanaethau lles staff effeithiol yn cael eu gwerthuso**<br>A5 Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno rhaglen o wasanaethau i gefnogi lles staff, nid yw'n ei gwerthuso nac yn ei hadolygu'n ddigonol ar hyn o bryd i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn diwallu anghenion staff. Dylai'r Ymddiriedolaeth gyflwyno proses reolaidd i werthuso'i gwasanaethau lles staff, megis trwy arolygon pwls neu holiaduron i gyfranogwyr. Dylai'r gwerthusiad hwn oleuo penderfyniadau hirdymor ynglŷn â buddsoddi ar gyfer gwasanaethau o'r fath. | **Cwblhawyd.** Gweithiodd yr Ymddiriedolaeth gyda Phrifysgol Abertawe i gynnal arolwg llesiant a rhannwyd adroddiad o ganlyniadau'r arolwg gyda Thîm Arweinyddiaeth Gweithredol yr Ymddiriedolaeth ym mis Chwefror 2023. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau llesiant a gynigir gan yr Ymddiriedolaeth yn ogystal â meysydd a awgrymir ar gyfer pwyslais pellach. |

# Atodiad 3

## Ymateb sefydliadol i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 4: ymateb yr Ymddiriedolaeth i'n hargymhellion archwilio**

| Cyf | Argymhellion | **Ymateb sefydliadol**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau arfaethedig yn cael eu cyflawni | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | **Tryloywder busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau**<br>Mae cyfleoedd yn bodoli i wella tryloywder busnes y Bwrdd a'r Pwyllgorau ymhellach. Dylai'r Ymddiriedolaeth:<br>a) ddarparu Adroddiad Cadeirydd ysgrifenedig i bob cyfarfod Bwrdd. (**Blaenoriaeth Ganolig**); ac | a) Cytunwyd. Bydd Adroddiad Cadeirydd ysgrifenedig yn cael ei ddarparu i bob cyfarfod Bwrdd yn weithredol o gyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2024.<br>b) Cytunwyd y dylai cofnodion gael eu drafftio a'u cymeradwyo gan y Cadeirydd a'r Arweinydd Gweithredol o fewn 14 diwrnod. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn derfynol tan iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd/Pwyllgor. I hwyluso cyfathrebu tryloyw a phrydlon, cynigir y dylai'r adroddiad AAA gan Gadeirydd y Pwyllgor i'r Bwrdd gael ei gyhoeddi o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod. Mae'r adroddiadau AAA hyn yn cynnig crynodeb o'r cyfarfod ac yn rhoi'r presenoldeb a'r eitemau agenda hefyd. | I gychwyn ym mis Ionawr 2024 ac yn barhaus wedi hynny.<br><br>I gychwyn ym mis Ionawr 2024 ac yn barhaus wedi hynny. | Trish Mills, Ysgrifennydd y Bwrdd<br><br>Trish Mills, Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Cyf | Argymhellion | **Ymateb sefydliadol**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau arfaethedig yn cael eu cyflawni | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| | b) adolygu a chyhoeddi cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod. (**Blaenoriaeth Ganolig**). | | | |
| A2 | **Mynediad y cyhoedd at strategaethau a chynlluniau allweddol**<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth gyhoeddi cynlluniau allweddol ar wefan yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig | Cytunwyd – mae'r ddau yma ar y wefan bellach. | Cwblhawyd | Trish Mills, Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Cyf | Argymhellion | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau arfaethedig yn cael eu cyflawni | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | Integredig diweddaraf a'r Cynllun Pobl a Diwylliant. (**Blaenoriaeth Uchel**) | | | |
| A3 | **Eglurder amcanion/camau gweithredu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig**<br>Canfuwyd gennym nad yw Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys camau CAMPUS, nid yw llawer yn cynnwys canlyniad mesuradwy penodol, ac mae hefyd yn aneglur yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ym mha flwyddyn y disgwylir i | Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn gynllun tair blynedd. Mae sicrwydd ynghylch darpariaeth y cynllun yn ystod y flwyddyn i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd drwy'r Bwrdd Trawsnewid Strategol. Bydd y camau hyn yn ystod y flwyddyn yn CAMPUS a lle bynnag y bo'n bosibl yn nodi canlyniadau mesuradwy a cherrig milltir cyflawni. | Mai 2024 yn adrodd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. | Rachel Marsh, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad |

| Cyf | Argymhellion | **Ymateb sefydliadol**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau arfaethedig yn cael eu cyflawni | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| | bob cam gael ei gyflawni. Fodd bynnag, mae cerrig milltir cyflawni wedi'u cyflwyno mewn mannau eraill. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod yr holl gamau a gyflwynir mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol yn CAMPUS trwy nodi canlyniadau mesuradwy a cherrig milltir cyflawni. (**Blaenoriaeth Uchel**) | | | |
| A4 | **Trosolwg o ddarpariaeth y Cynllun Tymor Canolig Integredig**<br>Er y bu gwelliannau diweddar i adrodd ar | Cytunwyd.<br>Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gellir cyflawni hyn orau, a byddwn yn bwrw ymlaen â hyn i brosesau adrodd 2024-25. | Mehefin 2024 | Rachel Marsh, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad |

| Cyf | Argymhellion | **Ymateb sefydliadol**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau arfaethedig yn cael eu cyflawni | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| | gynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig i'r Pwyllgorau a'r Bwrdd, ceir lle i ddarparu mwy o eglurder ar ba un a yw'r camau a gyflawnwyd wedi sicrhau'r effaith a fwriadwyd. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod pob adroddiad ar gynnydd cyflawni cynlluniau yn cynnwys gwybodaeth am yr effaith a sicrhawyd. (**Blaenoriaeth Uchel**) | | | |
| A5 | **Trosolwg o gynlluniau arbedion**<br>Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn nodi'n eglur yn ei | Cytunwyd<br>Er nad yw bob amser yn cael ei nodi'n benodol yn y prif adroddiad, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth ddarparu datganiad ariannol misol i LIC sy'n nodi manylion | Mawrth 2024 | Chris Turley, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol |

| Cyf | Argymhellion | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau arfaethedig yn cael eu cyflawni | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | chynlluniau a'i hadroddiadau cyllid a yw cynlluniau arbedion yn gylchol neu ddim yn gylchol. I gryfhau trosolwg ar arbedion, mae angen i'r Ymddiriedolaeth nodi a yw cynlluniau yn gylchol neu ddim yn gylchol yn ei chynlluniau a'i hadroddiadau ariannol. (**Blaenoriaeth Uchel**) | cynlluniau cylchol. Darperir y datganiad diweddaraf fel atodiad i bob adroddiad ariannol. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i nodi hyn yn fwy pendant ym mhrif ran yr adroddiad.<br>Gan gydnabod y sefyllfa bresennol ac yn y dyfodol i'r sector cyhoeddus a'r GIG yn benodol, mae'r sefydliad wedi sefydlu strategaeth o ddilyn Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol i nodi cynnydd i gynlluniau arbedion cylchol o ddau safbwynt gweithgor ar wahân sef Sicrhau Effeithlonrwydd a Chynhyrchu Incwm i liniaru.<br>Dylai hyn alluogi mwy o eglurder o ran y rhaniad rhwng arbedion cylchol ac nad ydynt yn gylchol mewn cynlluniau ariannol yn y dyfodol. Mae'n anochel fodd bynnag y bydd elfen o unrhyw ddarpariaeth o gydbwysedd ariannol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys elfen nad yw'n gylchol, pa un a yw hynny'n wariant neu'n arbedion. | | |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.